Geirfa

Dyma esboniad o rai o'r termau sy'n ymwneud ag Undebau Credyd a gwasanaethau ariannol.

ABCUL
Cymdeithas Undebau Credyd Prydain Cyf (The Association of British Credit Unions Ltd). Y brif gymdeithas ar gyfer Undebau Credyd ym Mhrydain.

AGM
Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – cyfarfod lle mae aelodau'r Undeb Credyd yn cael cyfle i bleidleisio dros y Cyfarwyddwyr a'r swyddogion fydd yn rheoli'r Undeb Credyd ar ran yr aelodau.

APR
Cyfradd Ganrannol Flynyddol. Ar fenthyciad, dyma gost flynyddol y llog ar ben y benthyciad y mae'n rhaid i chi ei dalu'n ôl. Ar gynilion, dyma'r llog y byddwch yn ei ennill dros y flwyddyn.
Y gyfradd log uchaf y gall Undeb Credyd ei godi ar fenthyciadau yw 2% y mis, sef APR o 26.8%.

Asedau
Rhywbeth o werth y gellir ei ddefnyddio i dalu dyled yn ôl, e.e. arian parod, buddsoddiadau, offer ac adeiladau.

Archwilydd
Person sydd â chymhwyster proffesiynol i wirio cyfrifon ariannol blynyddol Undebau Credyd.

Banc
Busnes sy'n cynnig gwasanaethau ariannol. Mae gan y rhan fwyaf o fanciau yn y DU gyfranddalwyr a nhw sydd berchen y banc. Bydd y banc yn ceisio creu cymaint o elw â phosibl i'w gyfranddeiliaid.

Cael benthyg
Cael arian gan rywun i'w ddefnyddio nawr, gyda'r bwriad o'i dalu'n ôl yn ddiweddarach.

Geirfa

Cyllideb
Cynllun o ran faint o arian i'w wario ac ar beth y dylid ei wario.

Cymdeithas adeiladu
Math arall o fusnes lle gall aelodau fynd ato i gynilo neu gael benthyg arian. Am fod gan gymdeithasau adeiladu fodel busnes cydfuddiannol, mae ganddynt hwythau hefyd aelodau.

Cynllun busnes
Math o fap ar gyfer y busnes i'w helpu i gynllunio pa gyfeiriad y dylai ei gymryd yn y dyfodol. Mae strategaeth farchnata a chefndir ariannol yn rhan o'r Cynllun Busnes. Rhaid i bob Undeb Credyd gadw a chynnal Cynllun Busnes cyfredol.

Cyfalaf
Mae hwn yn golygu gwerth net yr Undeb Credyd. Rydyn ni'n mesur cyfalaf drwy gyfrifo faint yn fwy ydy asedau'r Undeb Credyd na'i ddyled.

Derbynnydd arian
Mae'r rhai sy'n gwneud y rôl hon yn sicrhau bod yr arian parod yn cael ei gysoni a'i fancio ar ddiwedd pob casgliad.

Pwyntiau casglu
Mannau lle mae'r Undeb Credyd ar agor i dderbyn busnes. Gallan nhw fod yn unrhyw le sy'n gyfleus i bobl, e.e. archfarchnad leol, swyddfa'r post, cymdeithas dai, canolfan gymunedol, eglwys, capel neu ysgol.

Casglwyr
Mae'r rhain yn gweithio yn y pwyntiau casglu yn casglu cynilion ac ad-daliadau ar fenthyciadau gan yr aelodau. Am resymau diogelwch, dylid bob amser gael o leiaf ddau gasglwr ym mhob pwynt casglu.

Cwlwm cyffredin
Yr hyn sydd gan yr holl aelodau'n gyffredin e.e. byw, gweithio, gwirfoddoli neu astudio yn yr un lle. Dyma'r cwlwm cyffredin sy'n gwneud Undebau Credyd yn unigryw ac yn wahanol i fanciau a chymdeithasau adeiladu. Mae cyfreithiau newydd sy'n dod i rym yn 2009 yn golygu y bydd sefydliadau'n gallu ymuno hefyd, fel clybiau pêl-droed er enghraifft.

Geirfa

Gweithdrefnau delio â chwynion
Mae'n rhaid i bob Undeb Credyd weithredu'r gweithdrefnau hyn.

Busnes cydweithredol
Mae gan fusnesau cydweithredol fodel busnes sy'n golygu y gall yr aelodau ddweud eu dweud ar sut mae'r busnes yn cael ei redeg. Mae gwahanol fathau o fusnesau cydweithredol; rhai i ddefnyddwyr, rhai amaethyddol a rhai i weithwyr. Maen nhw'n rhannu'r un gwerthoedd ac egwyddorion.

Y Pwyllgor Credyd
Gwaith hwn yw gwneud yn siŵr bod y prif fusnes o roi benthyciadau'n cael ei wneud er budd aelodau'r Undeb Credyd. Nid yw'n orfodol cael un o'r rhain.

Rheoli credyd
Rhoi gweithdrefnau ar waith i wneud yn siŵr bod pobl sy'n cael benthyciadau gan yr Undeb Credyd yn talu'r swm iawn yn ôl. Gallai hyn fod mor syml â rhywun yn ffonio aelodau i'w hatgoffa nhw os ydyn nhw'n hwyr yn gwneud taliad.

Asiantaeth Cyfeirio Credyd
Cronfa ddata sy'n nodi'r bobl sydd wedi cael benthyg arian a ph'un a ydyn nhw wedi'i dalu'n ôl ai peidio. Mae'r asiantaeth yn rhoi cyfradd gredyd i chi a bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu â busnesau eraill sy'n cynnig gwasanaethau ariannol er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau cyn rhoi benthyciadau.

Undeb Credyd
Busnes cydweithredol ariannol sy'n darparu gwasanaethau ariannol i'w aelodau.

Deddf Undebau Credyd 1979
Y gyfraith sy'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol ac sy'n diffinio Undebau Credyd. Bydd Rheolau'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) yn ei Lawlyfr yn disodli llawer o bwerau rheoleiddio'r Undeb Credyd.

Diogelu data
Gwneud yn siŵr bod y wybodaeth a gofnodir am bobl yn gywir ac yn cael ei chadw'n ddiogel.

Dyled
Arian i'w dalu'n ôl i rywun o ganlyniad i gael benthyg (benthyciad).

Geirfa

Benthyciad dyledus/hwyr yn cael ei dalu'n ôl
Pan fydd rhywun yn peidio â thalu swm llawn y benthyciad yn ôl fel y cytunwyd yn wreiddiol.

Cyfarwyddwr
Caiff y cyfarwyddwyr eu hethol o blith yr aelodau, gan yr aelodau. Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am reoli'r Undeb Credyd a phennu pa gyfeiriad bydd yn ei gymryd.

Buddran
Adenillion ar gynilion aelodau'r Undeb Credyd - mae'n debyg iawn i daliad llog. Caiff y fuddran ei thalu'n flynyddol allan o elw'r Undeb Credyd.
Mae'r term buddran (dividend) yn gallu bod yn ddryslyd, oherwydd nid yw hon yr un fath â'r fuddran a gaiff ei thalu ar fuddsoddiadau seiliedig ar risg, fel ecwiti (cyfranddaliadau).

Benthyciwr Stepen Drws
Mae benthyciadau stepen drws fel arfer yn cael eu cynnig i bobl ar incwm isel sy'n ei chael yn anodd cael benthyg arian o ffynonellau eraill.
Maen nhw'n gallu cael benthyg symiau bach, e.e. £100 mewn arian parod dros gyfnod byr. Ond efallai y byddan nhw'n gorfod talu llog mawr ac yn aml byddan nhw'n cael eu hannog i gael benthyg mwy cyn iddyn nhw orffen talu eu benthyciadau cyfredol yn ôl.

Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol
Byddech chi'n mynd at y gwasanaeth hwn pe byddai arnoch angen cwyno am unrhyw wasanaethau ariannol.

Yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA)
Y corff sy'n rheoleiddio Undebau Credyd, a phob darparwr gwasanaethau ariannol arall, yn unol â Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol (FSMA) 2000. Mae ganddo lyfr rheolau o'r enw Llawlyfr yr FSA (a Llyfr Ffynhonnell Arbenigol Undebau Credyd neu'r 'CRED' ar gyfer Undebau Credyd). Mae'r FSA hefyd yn cymeradwyo pobl ar gyfer rhai swyddi, fel rôl y Swyddog Hysbysu am Wyngalchu Arian.

Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (FSCS)
Bydd hwn yn diogelu cynilion yr aelodau pe byddai'n rhaid i'r Undeb Credyd gau.

Cymdeithas gyfeillgar
Enw hen ffasiwn ar sefydliad ariannol 'dielw'.

Geirfa

Gwarantwr
Rhywun sy'n llofnodi dogfen gyfreithiol i addo cymryd cyfrifoldeb dros ddyledion person arall pe byddai hynny'n ofynnol. Felly os bydd y benthyciwr yn methu â thalu benthyciad yn ôl, gallai'r gwarantwr orfod talu'r swm sy'n weddill yn llawn.

Cymdeithas ddiwydiannol a darbodus
Mae Undebau Credyd wedi'u cofrestru o dan y Ddeddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965, drwy ddarpariaethau Deddf Undebau Credyd 1979. Mae Undebau Credyd felly'n fathau o Gymdeithasau Diwydiannol a Darbodus. Fel busnesau cydweithredol sydd ag aelodau, eu diben yw darparu gwasanaethau er budd eu haelodau, yn hytrach na gwneud elw ar gyfer cyfranddalwyr trydydd parti.

Rheoliadau mewnol
Y prosesau gwirio a diogelu sydd gan yr Undeb Credyd ar waith i atal twyll a niwed i'r busnes.

Llog
Mewn perthynas â benthyciad, ystyr llog yw ffi y mae benthycwyr yn ei chodi am gael defnyddio eu harian. Gweler APR. Mewn perthynas â chyfrif cynilo, mae'n golygu ffi y mae banciau yn ei thalu i chi am roi eich arian chi yno (er mwyn iddyn nhw gael defnyddio'ch arian).

Buddsoddi
Rhoi arian o'r neilltu ar gyfer y dyfodol, yn y gobaith y bydd eich cynilion yn tyfu.

Cynilwyr ifanc
Pobl ifanc o dan 16 oed sy'n cynilo â'r Undeb Credyd. Yn 16 oed, byddan nhw'n dod yn aelodau, ond ni fyddan nhw'n gallu cael benthyciad na gweithredu fel swyddog nes byddan nhw'n 18 oed. Mae cynilwyr ifanc yn cael cynilo hyd at £10,000.

Adnabod eich gwybodaeth am gwsmeriaid
Gwybodaeth y mae'r Undeb Credyd neu'r banc ei hangen am eu cwsmeriaid er mwyn gallu atal twyll neu wyngalchu arian.

Benthyciadau
Ystyr benthyciad yw arian rydych chi'n cael ei fenthyg gan rywun nawr ac yn cytuno ei dalu'n ôl yn y dyfodol. Caiff benthyciadau y cytunir arnynt eu rhoi i aelodau'r Undeb Credyd o'r gronfa gyffredin o arian sydd wedi cronni o gynilion yr aelodau.

Geirfa

Swyddog benthyciadau
Aelod o staff neu wirfoddolwr sy'n gallu awdurdodi benthyciadau hyd at swm y cytunir arno ac o fewn y polisi benthyciadau.

Yswiriant diogelu benthyciadau
Yn dibynnu ar yr amodau, bydd Yswiriant Diogelu Benthyciadau'n talu benthyciad aelodau pe bydden nhw'n marw neu mewn unrhyw amgylchiadau sy'n ei gwneud yn anodd iddyn nhw dalu, e.e. cael eu diswyddo.

Benthyciwr arian didrwydded (loan shark)
Rhywun sy'n cynnig benthyciadau, fel arfer, i bobl mewn sefyllfa ariannol fregus, a hynny ar gyfraddau eithriadol o uchel. Maen nhw hefyd yn cael eu galw'n siarcod benthyciadau neu'n 'loan sharks' am ei bod mor anodd dianc o'u gafael ar ôl cael benthyciad ganddyn nhw. Weithiau byddan nhw'n bygwth bod yn dreisgar neu gymryd asedau eraill oddi arnoch os ydych chi'n cael trafferth talu'r benthyciad yn ôl.

Aelod o Undeb Credyd
Rhywun sydd wedi gwneud cais i ymuno â'r Undeb Credyd, ac sy'n rhan o'r cwlwm cyffredin. Maen nhw wedi talu unrhyw ffi mynediad sy'n ofynnol ac wedi prynu cyfranddaliad gwerth punt o leiaf.

Gwyngalchu arian
Pan fydd gwir ffynhonnell a pherchnogaeth yr elw a wneir drwy weithgareddau troseddol yn cael ei chuddio, drwy symud arian o un lle i'r llall. Mae gwyngalchu arian yn drosedd ariannol. Mae gan bob Undeb Credyd Swyddog Hysbysu am Wyngalchu Arian fel arfer, sy'n cael ei gymeradwyo gan yr FSA.

Llawlyfr gweithdrefnau a pholisïau
Y brif ddogfen y mae Undebau Credyd yn ei hysgrifennu i benderfynu ar ddulliau gweithredu a pholisïau'r Undeb Credyd. Gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr newid y ddogfen wrth i'r Undeb Credyd ddatblygu ar sail profiad.

Cronfa wrth gefn
Swm o arian a roddir o'r neilltu i wneud yn siŵr bod digon o arian ar gael pe byddai problemau'n codi.

Geirfa

Rheoleiddiwr
Rôl y rheoleiddiwr yw rheoleiddio a goruchwylio gwasanaethau ariannol gan gynnwys Undebau Credyd, i wneud yn siŵr eu bod yn gweithredu'n gyfreithlon ac yn gwarchod cynilion eu haelodau. Yn y DU, yr FSA yw'r rheoleiddiwr. Mae Gofynion Hysbysu gan Undebau Credyd sy'n golygu bod yn rhaid iddyn nhw anfon gwybodaeth i'r FSA fel Ffurflenni Ariannol Blynyddol. Hefyd, mae ganddyn nhw ofynion rheoliadol fel cadw cronfeydd wrth gefn.

Benthyciad wedi'i warantu
Benthyciad sydd wedi'i warantu gan ryw fath o eiddo gwirioneddol neu bersonol (gwarant gyfochrog) y gellir ei werthu er mwyn ad-dalu'r benthyciad pe byddai'r aelod yn methu â thalu'n ôl. Ymysg y mathau o warantau sy'n bodoli mae ceir, gemwaith, cartrefi a pholisïau yswiriant. Mewn Undebau Credyd gellir talu benthyciadau wedi'u gwarantu yn ôl dros gyfnod o bum mlynedd.

Cyfranddaliadau
Pan fydd aelodau'n talu cynilion i mewn i'r Undeb Credyd, maen nhw'n prynu cyfranddaliadau, sydd werth £1.00 yr un. Bydd pob un o aelodau'r Undeb Credyd yn cael eu trin yn gyfartal, waeth pa mor fawr yw eu cyfranddaliad.
Mae hyn yn wahanol i gyfranddaliadau a gaiff eu prynu a'u gwerthu ar y farchnad stoc, sy'n gallu cael eu trosglwyddo i bobl eraill ac yn gallu newid o ran gwerth. Gallai eu gwerth godi ond mae yna risg y gallai ostwng hefyd. Mewn sefydliadau cyfranddalwyr, po fwyaf o gyfranddaliadau sydd gennych, po fwyaf yw eich dylanwad o fewn y sefydliad.

Staff
Caiff y rhain eu cyflogi i weithredu gwaith dyddiol yr Undeb Credyd. Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n rhoi cyfarwyddyd i staff ac yn eu penodi.

Trysorydd
Y Trysorydd fydd yn darparu adroddiadau ariannol i Fwrdd y Cyfarwyddwyr, gan roi'r holl gofnodion ariannol i'r pwyllgor goruchwylio eu harchwilio.

Benthyciad heb ei warantu
Dyma'r math o fenthyciad y bydd Undeb Credyd yn ei gynnig fel arfer. Dylai fod yn seiliedig ar feini prawf benthyg gofalus, gan gynnwys asesiad o faint all y benthyciwr fforddio ei dalu'n ôl. Mae'n rhaid iddo gael ei dalu'n ôl mewn 3 blynedd.

Geirfa

Gwirfoddolwyr
Pobl sy'n gweithio i'r Undeb Credyd ar sail ddi-dâl. Fel arfer, byddan nhw'n gweithio fel casglwyr, derbynyddion arian, codwyr arian a staff cymorth gweinyddol. Mae'r Cyfarwyddwyr Gwirfoddol yn ddi-dâl hefyd.

Uned Rhoi Benthyg Arian yn Anghyfreithlon Cymru
Mae'r uned hon yn chwilio am fenthycwyr arian didrwydded sy'n codi cyfraddau llog uchel iawn ac efallai'n bygwth trais neu'n cymryd asedau eraill pan fydd pobl yn cael trafferth talu eu benthyciadau'n ôl. Bydd yn cymryd camau i wneud yn siŵr bod y rhai sy'n torri'r gyfraith drwy roi benthyg yn y modd hwn yn cael eu herlyn.

Mae rhai o'r termau yn yr eirfa hon yn gyfieithiad o addasiad o eirfa ABCUL (Cymdeithas Undebau Credyd Prydain) sydd â chasgliad cynhwysfawr o dermau ar ei gwefan: www.abcul.org